Polisi Derbyn

Amcanion

Rydym yn ymgeisio i fod yn ysgol gynhwysol, yn croesawu plant o bob cefndir a phob gallu.

Caiff pob cais ei drin yn ôl teilyngdod ac mewn dull sensitif.

Yr unig gyfyngiad a rhoddir ar dderbyniad yw o ran niferoedd. Os yw nifer y plant sy'n gwneud cais am dderbyniad yn fwy na'r llefydd sydd ar gael, rydym yn mabwysiadu'r weithdrefn isod i bennu a yw plentyn i'w dderbyn neu beidio. Ein dymuniad yw i rieni gael lle i'w plentyn yn yr ysgol o'u dewis. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl, oherwydd y cynnydd yn y galw ar y llefydd sydd ar gael.

Nid yw lefel gallu plentyn yn berthnasol i bolisi derbyn yr ysgol hon, felly hefyd unrhyw anghenion arbennig sydd o bosibl gan blentyn.

Sut gall rhieni wneud cais i'w plentyn gael ei dderbyn i'n hysgol

Mae ein hysgol yn ysgol gymunedol, a chaiff y trefniadau derbyn eu pennu gan yr AALl. Yr Awdurdod Derbyn am ein hysgol felly yw'r AALl, sydd yn cyhoeddi ei rheoliadau mynediad yn flynyddol. Gall rhieni dderbyn copi o'r rheoliadau yma yn uniongyrchol oddi wrth yr AALl.

Mae prosbectws derbyniad blynyddol yr AALl yn hysbysu rhieni o sut i wneud cais am le yn yr ysgol o'u dewis. Mae gan rieni'r hawl i fynegi eu blaenoriaeth o ran dewis, ond nid yw hun yn ei hun yn gwarantu lle yn yr ysgol arbennig honno. Dylid gwneud gais ar ffurflen y gellir ei gael oddi wrth yr Adran Addysg leol, a dylid ei ddychwelyd erbyn y dyddiad a rhoddir ar y ffurflen. Bydd yr AALl yn hysbysu rhieni o'r penderfyniad cyn gynted ag y mae'r holl geisiadau wedi eu hystyried yn ôl y meini prawf.

Un dyddiad derbyn sydd bob blwyddyn, yn gynnar ym mis Medi (h.y. pan mae tymor yr hydref yn dechrau).

Apeliadau derbyniadau

Os nad yw'r AALl yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, bydd hyn oherwydd i wneud hynny byddai'n niweidio addysg plant eraill drwy ganiatáu i nifer y plant yn yr ysgol i gynyddu'n ormodol.

Os yw rhieni am apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn plentyn, medrant wneud hyn drwy wneud cais i'r AALl. Mae panel annibynnol yn ystyried apeliadau o'r fath, ac mae penderfyniad y panel yma'n gyflynol i bawb sydd ynghlwm. Os yw'r panel apeliadau yn penderfynu y dylwn dderbyn plentyn gafodd ei wrthod yn wreiddiol, yna byddwn yn derbyn y penderfyniad a pharhau i wneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu'r addysg orau posibl i bob plentyn yn ein hysgol. (Mae manylion pellach ynglŷn ag apeliadau i'w cael ym mholisi derbyn yr AALl).

Y nifer safonol

Y 'nifer safonol' yw'r nifer o blant mae'r AALl yn ystyried mae'r ysgol yn gallu derbyn. Y nifer safonol ar gyfer ein hysgol yw 45.

Monitro ag adolygu

Bydd y corff llywodraethol yn monitro'r polisi yma ac yn ei adolygu os bydd unrhyw newid mewn amgylchiadau, un ai yn ein hysgol neu yn yr ardal leol. Bydd y polisi yma bob amser yn cymryd ystyriaeth briodol o'r arweiniad a rhoddir gan adran dderbyn yr AALl.